Cyngor Tref
**Rhuddlan**
Town Council

**Cyngor Tref Rhuddlan – Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ddydd Iau, 10 Hydref 2024**

**Cyfarfod Hybrid**

**Yn bresennol:**
Y Cynghorydd Val Simmons (Maer)
Y Cynghorydd Jackie Burnham (Dirprwy Faer)
Y Cynghorydd Ivor Beech
Y Cynghorydd Ann Davies BEM
Y Cynghorydd Reg Davies
Y Cynghorydd Mike Elgin
Y Cynghorydd Mike Kermode
Y Cynghorydd Arwel Roberts
Steve Wilson - Clerc y Dref a Swyddog Ariannol Cyfrifol
Hayley Gibbons – Clerc Cynorthwyol

Roedd tua 20 aelod o'r cyhoedd yn bresennol yn Hwb Rhuddlan, ac ymunodd gohebydd o'r 'Rhyl Journal' â'r cyfarfod drwy Zoom.

Cafodd y cyfarfod ei recordio o'r pwynt hwn (sain yn unig)

Safodd y cyngor am un munud o dawelwch i gofio am y Clerc Cynorthwyol blaenorol Paul Smith a fu farw'n ddiweddar.

**1. Ymddiheuriadau**
Y Cynghorydd Gareth Rowlands – salwch, derbyniwyd yr absenoldeb gan y Cyngor
Y Cynghorydd Bleddyn Williams – i ffwrdd gyda'i waith, derbyniwyd yr absenoldeb gan y Cyngor.

Croesawodd y Maer bawb a oedd yn bresennol ac atgoffwyd yr Aelodau i ddilyn y Cod Ymddygiad a thrin aelodau eraill â pharch .

**2. Datgan Buddiant**
Y Cynghorydd Arwel Roberts – eitem rhif 14 ar yr agenda.

**3. Materion Brys**
Ymddiswyddiad y Cynghorydd Rob Williams.
Darllenodd y Maer lythyr ymddiswyddiad gan Mr Williams ac yna rhoddodd ei ymateb personol i'r llythyr. Gwahoddwyd y Cynghorydd Ann Davies i ymateb i'r ymddiswyddiad, fel ag y gwnaeth y ddau Faer blaenorol, sef y Cynghorydd Mike Elgin a'r Cynghorydd Mike Kermode. Rhoddodd cynghorwyr eraill eu sylwadau a gwahoddwyd aelodau'r cyhoedd i ofyn unrhyw gwestiynau. Gofynnodd un aelod o'r cyhoedd ynglŷn â'r datganiad gan yr Ombwdsmon, sef bod disgwyl i gynghorwyr fod â "chroen tew" ac esboniwyd hyn gan gynghorydd a Chlerc y Dref. Ni chafwyd cwestiynau pellach gan y cyhoedd.

Cynigiodd y Cynghorydd Mike Kermode fod Cyngor y Dref yn gwrthod yn llwyr yr honiadau a wnaed yn y llythyr ymddiswyddo a bod y Cyngor yn ysgrifennu at Mr Williams i'w atgoffa os oes ganddo unrhyw dystiolaeth yn ymwneud â chwynion swyddogol, fel y nodir yn ei lythyr ymddiswyddo, yna dylai gysylltu â'r Ombwdsmon Llywodraeth Leol. Ychwanegodd y Cynghorydd Kermode y dylai'r cyngor wahodd Pwyllgor Safonau Cyngor Sir Ddinbych i fynychu unrhyw gyfarfod o'r cyngor yn ddirybudd ac adrodd ar ei ganfyddiadau i'r Swyddog Monitro. Eiliwyd gan y Cynghorydd Mike Elgin. Roedd 6 pleidlais o blaid a 2 bleidlais yn erbyn. **Penderfynwyd.**

**4. Materion yr Heddlu**
Roedd yr Heddlu wedi anfon eu hymddiheuriadau a chyflwynodd y Clerc y ffigyrau troseddu ar gyfer misoedd Gorffennaf ac Awst i'r cyngor.

Cyflwynodd y Maer Hayley Gibbons, y Clerc Cynorthwyol newydd i'r Cynghorwyr.

**5a. Cofnodion Cyfarfod Cyngor y Dref a gynhaliwyd ar 12 Medi 2024**
Cynigiodd y Cynghorydd Arwel Roberts fod y Cofnodion yn gofnod cywir, eiliwyd gan y Cynghorydd Mike Kermode. **Penderfynwyd.** Llofnododd y Maer y Cofnodion

**5b. Cofnodion cyfarfod Gweithgor y Llyfrgell a'r Amgueddfa a gynhaliwyd ar 12 Medi 2024.** Cyflwynodd y Cynghorydd Mike Kermode y cofnodion a gofynnodd i aelodau'r grŵp a oeddynt yn gofnod cywir. **Penderfynwyd.** Hefyd, esboniodd nodau ac amcanion y grŵp er budd aelodau'r cyhoedd a oedd yn bresennol.

**6. Adroddiad Cynnydd ar sail y Cofnodion**
Rhoddodd y Clerc ddiweddariad i'r cynghorwyr ar y materion canlynol:

- Cafodd y cynghorwyr eu hatgoffa bod angen cynnal y cyfarfod "partneriaeth gyda Cyngor Sir Ddinbych" cyn gosod y Praesept ar gyfer y flwyddyn nesaf.
- Mae'r Clerc wedi ysgrifennu i CSDd ynglŷn â'r diffyg gwybodaeth ddigonol am y toiledau cyhoeddus ar Princes Road.
- Roedd wedi cysylltu â CSDd ynglŷn â'r gwelliannau i Faes Parcio Coetiau Postol. Rhoddodd y Cynghorydd Ann Davies yr wybodaeth ddiweddaraf i'r cynghorwyr am y sefyllfa a chynigiodd fod cyfarfod yn cael ei gynnal rhwng BIPBC a'r AS lleol i

drafod y mater hwn, a hefyd y diffyg darpariaeth iechyd yn Rhuddlan. Cytunodd y Cynghorydd Arwel Roberts ac eiliodd y cynnig. Fe wnaeth y Cynghorydd Mike Kermode atgoffa'r aelodau mai CSDd yw perchennog y maes parcio ac mai mater i CSDd yw hyn. Bydd y Cynghorydd Ann Davies yn rhoi diweddariad i'r cyngor yng nghyfarfod mis Tachwedd.

- Dywedodd y Cynghorydd Arwel Roberts wrth y cynghorwyr y bydd y prosiect Gefeillio yn cael ei ohirio tan 2025.

**7. Adroddiadau gan**

a. Roedd y Maer wedi cyflwyno adroddiad ysgrifenedig ac ychwanegodd ei bod hefyd wedi mynychu'r digwyddiadau canlynol: Dawns y Grŵp Dementia, sesiwn Codi Sbwriel, a Gwasanaeth Diolchgarwch Eglwys y Santes Fair. Fe wnaeth hi atgoffa'r aelodau o'i Noson Elusennol ar 23/11 a'r Sul Dinesig ar 8/12.
Dywedodd y Dirprwy Faer ei bod hi wedi cymryd rhan yn y digwyddiad Fforio yng Ngwarchodfa Natur Rhuddlan.
**Derbyniwyd y ddau adroddiad.**

b. Roedd Clerc y Dref wedi dosbarthu ei adroddiad ymlaen llaw a dywedodd fod angen i'r aelodau gymeradwyo sawl eitem.

- Cais gan y Cynghorydd Arwel Roberts i anfon llythyr yn llongyfarch trefnwyr Tu Cefn i'r Giât. Cynigiwyd gan y Cynghorydd Ivor Beech a ddywedodd wrth yr aelodau fod y digwyddiad yn llwyddiant ysgubol a'i fod wedi codi dros £18k er budd 8 elusen leol. Eiliwyd gan y Cynghorydd Arwel Roberts. **Penderfynwyd.**
- Dywedwyd wrth y cynghorwyr y bydd cynnydd o 33% yng nghost ariannu'r maes parcio am ddim yn Stryd y Senedd. Trafododd yr aelodau hyn a chynigiwyd bod y cyngor yn cynnal arolwg gyda busnesau, defnyddwyr y Ffordd Fawr a defnyddwyr y Ganolfan Gymunedol i holi a yw hyn yn cael effaith gadarnhaol ac felly yn cynnig gwerth am arian. Fe wnaeth yr Aelodau hefyd gyfeirio at effaith y taliadau hyd at 11pm ar ddefnyddwyr y Ganolfan Gymunedol a busnesau lletygarwch. Cynigiwyd gan y Cynghorydd Mike Kermode, eiliwyd gan y Cynghorydd Ann Davies. **Penderfynwyd.**
- Cytunwyd i brynu offer a chyfarpar coginio ar gyfer y Clwb Ieuenctid. Cynigiwyd gan y Cynghorydd Mike Elgin ac eiliwyd gan y Cynghorydd Ann Davies. **Penderfynwyd.**
- Derbyniwyd e-bost gan CSDd yn gofyn i'r holl gynghorwyr ddiweddaru eu hyfforddiant cod ymddygiad. Cynigiodd y Cynghorydd Ann Davies y dylid gwahodd y Swyddog Monitro i gynnal yr hyfforddiant mewn un sesiwn ar gyfer y cyngor i gyd, eiliwyd gan y Cynghorydd Arwel Roberts. **Penderfynwyd.**
- Rhybuddiodd y Clerc y cynghorwyr ynglŷn â risg o gael cyflenwad trydan heb fesurydd ar gyfer goleuadau Nadolig y dref.

**8. Adroddiadau'r Cynghorwyr Sir**

Fe wnaeth y Cynghorydd Ann Davies ymddiheuro am beidio â pharatoi adroddiad oherwydd amgylchiadau personol.

Roedd y Cynghorydd Arwel Roberts wedi dosbarthu adroddiad ysgrifenedig at sylw'r Aelodau. Diolchodd i bawb a gymerodd ran yn y sesiwn casglu sbwriel diweddar. Cyfeiriodd yr Aelodau at faterion pellach yn ymwneud â chasglu sbwriel.
**Derbyniwyd yr adroddiad**

**9. Y Gyllideb a Materion Ariannol**

a. Cyflwynodd y Clerc yr adroddiad blynyddol ar gyfer y 7 mis hyd at ddiwedd mis Hydref 2024. Dywedodd fod y gwariant yn unol â chyllidebau'r cyngor.

b. Cyflwynwyd y rhestr daliadau a gofynnodd y Cynghorydd Ann Davies am eglurhad ynglŷn â thaliadau cyflog a threuliau teithio'r Clerc. Cynigiodd y Cynghorydd Mike Kermode fod y cyngor yn derbyn y rhestr daliadau, eiliwyd gan y Cynghorydd Arwel Roberts. **Penderfynwyd**

**10. Cynllunio**

a. 44/2024/1304/HH – Gosod Pwmp Gwers Ffynhonnell Aer yn MEANDER, FFORDD ABERGELE, RHUDDLAN, SIR DDINBYCH, LL18 5UE. Dim sylwadau a dim gwrthwynebiad

b. 44/2024/1314/PF Newid defnydd garej yn siop ac uned adwerthu cyffredinol (Dosbarth Defnydd A1) yn ASH MOTORS MARSH ROAD, RHUDDLAN, SIR DDINBYCH, LL18 5UB. Nid oes gan y cyngor unrhyw sylwadau na gwrthwynebiad; mae'n cefnogi'r cais hwn.

c. 44/2024/1346/HH- Adeiladu dormer to fflat yng nghefn annedd yn DELFRYN, ETON PARK, RHUDDLAN, SIR DDINBYCH LL18 2UP. Dim sylwadau a dim gwrthwynebiad.

**11. Mainc ar lan yr afon**

Trafodwyd y fainc anniogel ar lan yr afon. Y cyngor sy'n berchen ar y fainc ac mae wedi cael ei symud a'i storio gan Gyngor Sir Ddinbych. Bydd y Clerc yn ceisio darganfod ble mae'r fainc ac yna gellir ei storio yn ddiogel yn yr ardal y tu cefn i'r Hwb nes bod modd dod o hyd i leoliad newydd ar ei chyfer.

Gadawodd y Cynghorydd Ann Davies y cyfarfod ar y pwynt hwn.

**12. Polisi Cronfeydd wrth Gefn Drafft**

Rhannodd y Clerc y polisi Cronfeydd wrth gefn arfaethedig a chynigiodd y Cynghorydd Mike Kermode fod y cyngor yn mabwysiadu'r polisi, eiliwyd gan Cynghorydd Mike Elgin. **Penderfynwyd.**

**13. Materion Cymunedol**

Rhoddodd y Cynghorydd Ivor Beech ddiweddariad i'r aelodau am gynigion amgen gan grŵp o ffermwyr lleol i gynnal yr afon er mwyn lleihau'r perygl o lifogydd. Dywedodd y Clerc y bydd yn gofyn i Cyfoeth Naturiol Cymru ddod i gyfarfod y cyngor yn y dyfodol ac y bydd hefyd yn cynnwys yr AS. Hefyd, cyfeiriodd y Cynghorydd Beech at lwyddiant diweddar digwyddiad elusennol Tu Cefn i'r Giât, a diolchodd i bawb a oedd wedi cefnogi'r digwyddiad.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Mike Kermode at holiadur llyfrgelloedd a fydd ar gael cyn bo hir ym mhob un o lyfrgelloedd CSDd. Awgrymodd fod y Cyngor yn rhoi cyhoeddusrwydd iddo. Byddai'r Clerc yn cysylltu â Mathew i gael manylion. Hefyd, dywedodd wrth yr aelodau y bydd taflen ymwybyddiaeth o Dementia yn cael ei dosbarthu i bob cartref yn Rhuddlan ym mis Hydref, ac fe wnaeth atgoffa'r Aelodau o'r digwyddiad Ffilm Dementia oedd yn cael ei gynnal ym Mhrestatyn yr wythnos nesaf.
Cyfeiriodd y Cynghorydd Jackie Burnham at achosion diweddar o lifogydd ar Ffordd Dyserth lle'r oedd CSDd wedi gwneud gwelliannau yn ddiweddar. Dywedodd y Cynghorydd Ivor Beech ei fod wedi cyfarfod Priffyrdd CSDd bythefnos yn ôl i drafod y llifogydd rhwng Dyserth a Rhuddlan. Dywedodd fod y Swyddog yn wych ond roedd cyfyngiadau ariannol yn effeithio ar y gwaith.
Dywedodd y Cynghorydd Jackie Burnham fod un o faneri Cymru yn dal i hedfan, ond roedd y llall wedi disgyn oddi ar y polyn ac yn hongian yn llipa dros wal y tŵr bach.
Mynegodd y Cynghorydd Reg Davies bryderon am oedolion sy'n defnyddio e-sgwteri ar balmant y Ffordd Fawr ar yr amser pan fydd pobl yn mynd adref. Cynigiodd y Cynghorydd Mike Elgin fod y Clerc yn ysgrifennu at Uwcharolygydd Heddlu Gogledd Cymru yn rhoi manylion ac yn gofyn am weithredu brys. Eiliwyd gan y Cynghorydd Arwel Roberts. **Penderfynwyd.**
Dywedodd y Cynghorydd Arwel Roberts ei fod wedi bod yn rhoi ei farn am e-feiciau ar Radio Cymru, a hefyd cyfeiriodd at y ffaith bod goleuadau'r Castell wedi'u diffodd. Bydd y Clerc yn cysylltu â Cadw.
Cyfeiriodd y Cynghorydd Val Simmons at broblem yn ymwneud â gwastraff a mater arall yn ymwneud â phreswyliwr dall sy'n cael trafferth dod o hyd i rywle i fynd â'i chi am dro. Cynigiodd y Cynghorydd Reg Davies y gallai'r unigolyn dan sylw ddefnyddio ei gae.

Diolchodd y Maer i bawb am ddod a daeth â'r cyfarfod i ben.

**18. Dyddiad y cyfarfod nesaf – 14 Tachwedd 2024 Cyfarfod y Cyngor Llawn 6.30pm**

**Llofnodwyd ……………………………………………………………………………… Y Cynghorydd Val Simmons (Maer)**